

DOLEN

Rhifyn 6- 20fed o Ragfyr 2024

*Neges y
Pennaeth*

Croeso i rifyn olaf y flwyddyn o'n cylchgrawn Dolen . Heb os, mae 2024 wedi bod yn flwyddyn eithriadol i'r ysgol gyda nifer o newidiadau. Gwelsom staff yn ymadael a staff newydd yn dechrau ac ynghanol prysurdeb y tymor diwethaf, bu arolygwyr ei fawrhydi, Estyn yn yr ysgol hefyd.

Cewch ddysgu mwy am yr arolwg pan fydd yr adroddiad swyddogol yn glanio ym mis Ionawr. Hoffwn, serch hynny, ddiolch i holl staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod yr arolwg ond hefyd yn ystod y flwyddyn.

Mawr obeithiaf y byddwch yn cael cyfle i ymlacio fel teuluoedd a mwynhau'r Nadolig cyn i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ar y 6ed o Ionawr 2025.

Ar ran holl staff yr ysgol, hoffwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

G Evans

Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)

Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I wneud apwyntiad, ewch i



<https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/>



Diwrnod Plant Mewn Angen



BBC

Plant mewn Angen
Children in Need



Gwisgo pyjamas ym Mro Teifi i gefnogi Plant Mewn Angen

Pyjamas, tawelwch, seiclo a phobi. Dyma oedd y rysâit berffaith ar gyfer codi **£2289.72** i'r elusen Plant Mewn Angen 2024 yn Ysgol Bro Teifi.

Ar ddiwrnod sy'n codi arian ar gyfer elusennau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt, aeth disgyblion Ysgol Bro Teifi ati i ddangos eu cefnogaeth at yr achos arbennig. Drwy gydol y diwrnod, cafwyd lluo o weithgareddau er mwyn mynd ati i godi swm teilwng a fydd yn helpu plant ein hardaloedd lleol a thu hwnt unwaith eto eleni.

O addurno bisgedi, lliwio, dawnio i gymryd rhan mewn tawelwch nodedig, gêm bingo dros y 'bing-bong,' a thaith nodedig o amgylch campws yr ysgol, mae'n sicr bod y disgyblion wedi mwynhau cefnogi'r diwrnod. Ac wrth gwrs, dim ond un diwrnod mewn blwyddyn ysgol y mae'n bosib i'r disgyblion neidio mas o'u gwelyau a chyrraedd yr ysgol yn eu pyjamas!



Yn ogystal, aeth criw'r Chweched ati i gymryd rhan mewn seicathalon 6 awr, ac roedd yn braf gweld pawb yn mynd ati yn cwblhau milltir neu ddwy ar gefn y beic. I orffen y diwrnod aeth yr athrawon yn erbyn y Chweched mewn gêm pêl-rwyd. A do, fe gurodd yr athrawon y chweched!

Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Adroddiad gan Daniel Evans, Cadeirydd y Fforwm Cymunedol a Dyngarol

Taith Efrog Newydd a Washington

Aeth criw o ddisyblion o'r Chweched ar daith bythgfiadwy i Efrog Newydd a Washington. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd ymweld â Central Park, ymweld ag Amgueddfa Cofio 9/11, ac ymweld â chofebion Lincoln, Jefferson, Fietnam a Martin Luther King.

Gallwch ddarllen adroddiad llawn gan Mari Thomas, Peredur Llywelyn ac Alaw Evans ar wefan Carthen360.



[Taith Ysgol Bro Teifi i America – Carthen360](#)



Taith 'Wicked' i Gaerdydd

Cafodd disgyblion sy'n astudio Cerdd a Drama gyfle i fynychu sioe Wicked yng Nghanolfan y Mileniwm Caerdydd, er gwaethaf y tywydd heriol!



Diolch i'r gyfadran Celfyddydau Myegiannol am drefnu!

Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn

Dyddiad Date	Digwyddiad	Event
06/01/2025	Disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol - Tymor y Gwanwyn	Pupils return to school - Spring Term
12-18/1/2025	Cwrs Sgio - Sestriere	Sestriere Skiing Course
20/1/2025	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 9	Year 9 Parents and Carers Evening
30/01/2025	Ffair Gyrfaedd Ysgol Bro Teifi (Dyddiad Newydd)	Ysgol Bro Teifi Careers Fair (New Date)
03/02/2025	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 7	Year 7 Parents and Carers Evening
17/2/2025	Noson Ddewisiadau Blwyddyn 9	Year 9 Options Evening
17+18/2/2025	Nosweithiau Rheini/ Gofalwyr Meithrin -Bl 6	Nursery-Yr 6 Parents/ Carers Evening
20/02/2025	Eisteddfod Offerynol yr Urdd - Bro Pedr	Urdd Instrumental Eisteddfod- Bro Pedr
21-23/02/2025	Taith Breswyl Sbaeneg i Barcelona	Spanish Residential Trip to Barcelona
06/03/2025	Noson Wybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru i'r 6ed	6th Form Student Finance Wales Information Evening

Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn

Dyddiad Date	Digwyddiad	Event
10/03/2025	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 8	Year 8 Parents and Carers Evening
19/03/2025	Eisteddfod Cylch Teifi - Bro Teifi	Teifi Area Eisteddfod - Bro Teifi
21/03/2025	DIWRNOD HMS - Ysgol ar Gau i ddisgyblion	INSET DAY - School Closed for Pupils
24/03/2025	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 10	Year 10 Parents and Carers Evening
28/03/2025	Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Uwchradd	Secondary Age Regional Urdd Eisteddfod
29/03/2025	Eisteddfod Rhanbarth Urdd Oed Cynradd	Primary Age Regional Urdd Eisteddfod
01/04/2025	Eisteddfod Dawns a Theatr yr Urdd	Urdd Dance and Theatre Eisteddfod
07/04/2025	Llun Ysgol Gyfan (Ad- drefnwyd o'r Hydref)	Whole School Picture (Re- arranged from October)
07/11/2025	Wythnos Rybgi 7 bob ochr yr Urdd (Timoedd i'w cadarnhau)	Urdd Rugby 7s Week (Teams TBC)

Clwb Caru Canu



**Mae'r Clwb Caru Canu wedi
bod yn brysur tu hwnt!
Cawsant wahoddiad i ganu
yn noson lawnsio llyfr
Meinir Howells, ac yna i
ganu mewn cyngerdd yng
Nghlwb Rygbi Castell
Newydd Emlyn**



**Bu disgyblion
blwyddyn 4 a 5 y Clwb
Caru Canu hefyd yn
diddanu'r preswylwyr
yng Nghartref Henllan.**



Noson Wobrwyo 2024

Hyfryd oedd gallu croesawu cyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a'u rhieni i noson wobrwyo flynyddol yr ysgol eleni. Roedd yn bleser gallu dathlu llwyddiant ein disgyblion a chael cyfle i ddal i fyny gyda'r holl hanesion. Diolch arbennig i'n siaradwraig wadd, Dr Bethan Green am gyflwyno araith ysbrydoledig i'r bobl ifanc. Da iawn i bawb!

Llongyfarchaiadau i'r disgyblion canlynol am dderbyn gwobrau am eu hymdrech llynedd:



Blwyddyn 7
Efa Dixon
Dion Evans
Gwion Evans
Magi Williams



Blwyddyn 8
Hollie Fallows
Dewi Ifan
Esyllt Jones
Magw Thomas



Blwyddyn 9
Magw Dafydd
Sioned Elias-Davies
Mabli Hughes
Lauren Mould



Blwyddyn 10
Efa Davies
Erin Hanna Rees
Sophie Reid
Steffan Williams

Noson Wobrwyo 2024

Enillwyr Gwobrau ac Ysgoloriaethau Ysgol Bro Teifi 2024

Ysgoloriaeth Dr John ac Edith Griffiths - Safon Uwch
Hanna Evans

Ysgoloriaeth Dr John ac Edith Griffiths - Safon TGAU
Ffion Thomas

Tlws Goffa William George ac Annie Mary Jones
Alwena Owen

Gwobr Chwaraeon Bro Teifi
Bedwyr Llywelyn

Gwobr Busnes (Delineate) - Blwyddyn 13
Casi Jones

Gwobr Busnes (Tregroes Waffles) - Blwyddyn 11
Rhys Davies

Gwobr Mathemateg (Delineate)
Ffion Thomas

Gwobr Milfeddygaeth (Tysul Vets)
Elliw Evans, Hanna Evans, Ffion Morgan, Alaw Silvestri Jones

Gwobr y Gyfraith (Teifi Law/IISF)
Tomos Evans

Gwobr Cyfrifeg (Cyfrifwyr Arwyn Vobe)
Catrin Lewis

Gwobr Meddygaeth (Meddygfa Llynyfran)
Annie Blu Evans

Gwobrau Amaeth yr NFU - Osian Thomas, Sion Briscoe, Dion Williams, Jac Rees, Wil Owen, Dafi Evans, Lowri Jones, Alaw Silvestri-Jones

Ysgoloriaeth Cylch Cinio Llandysul - Gwydion Dafis, Rhys Davies, Mali Evans, Peredur Llywelyn, Guto Dafis, Talulah Henley, Leisa Davies, Sian Jenkins, Mari Thomas, Cynyr MacRae, Jac Rees, Jordan Tomkins



Noson Wobrwyo 2024



**Dr Bethan Green -
Ein Siaradwraig Wadd**



**Côr Staff a'r Chweched yn diddanu'r
gynulleidfa**

**LLONGYFARCHIADAU MAWR IAWN I'R HOLL
DDISGYBLION AR EU LLWYDDIANT!**



**Diolch i'r busnesau isod am noddi gwobrau yn ein noson wobrwyo eleni. Rydym yn
gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn**



Pontio Blwyddyn 6



Cynhaliwyd dau ddiwrnod pontio llwyddiannus i ddarpar disgyblion blwyddyn 7. Yn rhan o'r arlwy oedd Sbaeneg, Gwyddoniaeth, Chwaraeon, TGCh, Drama, Technoleg a Cherdd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu nôl i'r ysgol yn fuan.





Llwyddiannau Cerddorol

Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Llongyfarchiadau i Alaw o flwyddyn 12 ar gael ei dewis yn dilyn clyweliad i fod yn aelod o Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Dymuniadau gorau iddi yn yr ymarferion yn ystod 2025 a'r cyngerddau, a fydd yn cynnwys perfformiadau yn Neuadd Brangwyn a Chadeirlan Llanelwy.



CÔR A CHERDDORFA'R SIR

Llongyfarchiadau i'n disgyblion a gymrodd rhan yng nghyngerdd côr a cherddorfa'r sir yn Aberystwyth cyn y Nadolig. Cafodd Lili Robinson gyfle i berfformio fel rhan o'r Côr Telynau a Catrin Finch yn perfformio gyda hwy. Hefyd, canodd Gwenllian Dafydd unawd hyfryd gyda'r Côr Hŷn.



Poburdd a Chogurdd Rhanbarthol

Bu cystadlu brwd yng nghystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd y tymor hwn. Llongyfarchiadau gwresog i bawb a gystadlodd ac i'r rhai a ddaeth i'r brig.

Grace – 1af PobUrdd Bl.7 a than 19 oed



Magi – 3ydd CogUrdd Bl.7-9



Kelsey – 2il CogUrdd Bl.10 a than 19 oed




TGAU Lletygarwch ac Arlwyio



Llongyfarchiadau i'n
disgyblion TGAU
Lletygarwch ac Arlwyio
yn eu haroliadau
ymarferol eleni. Y dasg
eleni oedd paratoi pryd
o fwyd i riant a
phlentyn. Gwaith
gwych ac edrych yn
flasus iawn!





Mewn Cymeriad - Mimosa

Braf oedd croesawu'r sioe 'Y Mimosa' gan gwmni Mewn Cymeriad i'r ysgol. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn astudio'r mudo i Batagonia ac roedd gwylio'r sioe yn dod â'r hanes yn fyw iddynt.



Gweithdy Celf gyda Meinir Mathias



Ymweliad gan yr artist lleol Meinir Mathias

Daeth yr artist Meinir Mathias mewn i siarad gyda dosbarthiadau Celf blwyddyn 8 fel rhan o waith y tymor. Cafwyd cyflwyniad diddorol ac addysgiadol am gynnwys ei gwaith, ei harddulliau o weithio a'i phrofiad fel artist proffesiynol. Cafwyd cyfle i holi cwestiynau ac i drafod ei gwaith yn seiliedig ar hanes Merched Beca.



Gwasanaeth Nadolig

Blynyddoedd 3 i 6



Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig disgyblion blynyddoedd 3 i 6 yng Nghapel Penybont



Llandysul. Roedd hi'n hyfryd gallu mynd â stori'r geni allan i'r gymuned ehangach, gyda'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan.



Diolch i swyddogion y Capel am gael defnyddio lleoliad mor braf.



Sioe Nadolig y Dysgu Sylfaen



Cynhaliwyd Sioe y Dysgu Sylfaen yn neuadd yr ysgol, lle perfformiwyd 'Y Goeden Fach Hardd.' Cafwyd perfformiad clodwiw ac roedd y disgyblion, staff a rhieni i gyd wrth eu boddau!



Chwaraeon - Pencampwyr Ceredigion!



Pêl-rwyd cymysg cynradd
Pêl-droed bechgyn dan 12
Pêl-droed bechgyn dan 14
Pêl-droed bechgyn dan 18
Rygbi bechgyn Blwyddyn 7
Rygbi bechgyn Blwyddyn 9
Pêl-rwyd merched dan 16



Rhifau Cyswilt Defnyddiol

Nadolig 2024

Gwasanaeth Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu Ceredigion

(Heblaw y nodir yn wahanol, mae'r llinellau cymorth yma ar agor 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn)

Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion: 01545 574000 / Tu Allan i Orlau: 0300 4563554

* Alcohol a Chyffuriau DAN 24/7: Ffôn 0808 808 2234 / Neges Destun i DAN 81066

* Samaritans: 116 123

* Childline: 0800 1111

* Papyrus Prevention of Young Suicide: 0800 068 4141 (9yb-Hanner Nos)

* Llinell Gymorth Byw Heb Ofn: 0808 80 10 800

* Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru: 01970 625 585 / 01239 615385

* Cyngor Tai Brys Shelter Cymru: 0345 075 5005

* Meic: 080880 23456 (8yb-Hanner Nos) / Neges Destun: 04001

* Llinell Gymorth Iechyd Meddwl C.A.L.L: 0800 132 737 / Neges Destun: 81066

* Llinell Gymorth Neges Destun 24/7 SHOUT: 85258

* Ymholiadau Iechyd CIG: 111 / CIG Uniongyrchol: 0845 46 47

* Di-Argyfwng: 101

* **Argyfwng: 999**

I gael rhagor o wybodaeth am fanciau bwyd Ceredigion a chymorth arall, ewch i: [Cymorth Costau Byw - Cyngor Sir Ceredigion](#)



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Grant Hanfodion Ysgol

Gall rhieni plant sydd yn byw mewn cartrefi ar incwm isel ac sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau penodol wneud cais am y grant o:

£125 i bob dysgwr!

(£200 i'r dysgwyr hynny sy'n cychwyn
ym mlwyddyn 7 i helpu gyda'r costau
uwch sydd yn gysylltiedig â dechrau'r
ysgol uwchradd)

Mae pob blwyddyn ysgol orfodol o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11 bellach yn gymwys. Gall teuluoedd dim ond gwneud un cais ar gyfer pob plentyn, unwaith ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Mae cynllun 2024 i 2025 bellach ar agor ac yn cau mis 31 Mai 2025. Dilynwch y linc isod am fwy o wybodaeth ac i wneud cais:



<https://www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol>



**Nadolig Llawen
&**

Blwyddyn Newydd Dda